Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2025

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

**1.** Cafodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.[1] Roedd y Ddeddf yn sicrhau parhad swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Roedd hefyd yn nodi'r trefniadau o ran atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.

**2.** Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer SAC. Mae SAC yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd am waith yr Archwilydd Cyffredinol a SAC. Cynrychiolir SAC gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y cyflogeion a dau aelod a etholir o blith y cyflogeion.

**3.** Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol sy'n cwmpasu'r Archwilydd Cyffredinol a SAC, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

## Trefniadau Atebolrwydd a Llywodraethu

**4.** Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i Senedd Cymru (y Senedd). O dan Adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Senedd wneud darpariaeth drwy ei Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Senedd neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".[2] Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, mae'r gwaith o oruchwylio SAC wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).[3]

**5.** Cynhaliwyd y gwaith craffu blynyddol ar SAC a'r Archwilydd Cyffredinol mewn dwy ran eleni.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[3] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013

**6.** Edrychodd y Pwyllgor ar y cyhoeddiadau a ganlyn ar 18 Medi 2025[4] a chymerodd dystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Dr Ian Rees, Cadeirydd y Bwrdd (y Cadeirydd), a dau o swyddogion Archwilio Cymru:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25;[5]
- RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025;[6]
- Cynllun Blynyddol 2025-26.[7]

**7.** Ar 5 Tachwedd 2025[8], cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, y Cadeirydd, a dau o swyddogion Archwilio Cymru ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027;[9]
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol 2025-26 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025.[10]

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25;
- Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025;
- Cynllun Blynyddol 2025-26;

[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2025
[5] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25
[6] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025
[7] Cynllun Blynyddol 2025-26
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2025
[9] Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027
[10] Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed o gymharu â'n Cynllun Blynyddol 2025-26 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025

- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol 2025-26 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027.

# 2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

**8.** Gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25[11] gerbron y Senedd ar 27 Mehefin 2025. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu SAC, paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol y Cyfrifon ar gyfer 2024-25, yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf. Paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol ar y cyd, yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf.[12]

**9.** Wrth fyfyrio ar gyflawniadau'r sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd, teimlai'r Archwilydd Cyffredinol ei fod yn gofnod hynod drawiadol o gyflawniadau'r sefydliad. Yn benodol, tynnodd sylw at y swm sylweddol iawn o waith a gyflawnwyd ac ansawdd ac effaith gwaith Archwilio Cymru. Ychwanegodd:

> *"Internally, I'm delighted, too, with the evolving culture of the organisation. It now feels like a really energised and positive environment, and that's reflected in our people survey scores and elsewhere."*[13]

## Perfformiad

**10.** At ei gilydd, cyflawnodd Archwilio Cymru, neu bu'n agos at gyflawni, 10 o blith ei 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol (Dangosyddion).

### Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel (Dangosyddion 1-7)

**11.** Mae'r saith dangosydd o fewn y thema hon yn ymwneud â'r allbynnau y mae Archwilio Cymru yn eu cyflawni. Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad, gyda thri dangosydd wedi'u cyflawni neu bron â'u cyflawni, o'i gymharu â dau ddangosydd yn 2023-24.[14]

**12.** O ran terfynau amser, mae Archwilio Cymru wedi cynyddu cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd o'u cymharu â'r terfyn amser statudol neu'r terfyn amser y cytunwyd arno (99 y cant yn 2024-25 o'i gymharu ag 85 y cant yn 2023-24). Nodir statws Dangosydd 1 fel "wedi cyflawni neu bron â chyflawni" yn erbyn targed o 100 y cant.[15]

---

[11] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25
[12] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 16-17
[14] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalennau 16-17
[15] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 16

**13.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y cynnydd enfawr a wnaed yn erbyn Dangosydd 1 i leihau'r ôl-groniad o waith archwilio statudol a wnaed ers COVID:

> *"… we're now back to the position, if you look across the three big sectors in which we work—. In the NHS, we are bang on target with the sector and bringing deadlines forward for audited accounts. In the central Government sector, everything is being delivered to statutory deadlines. In the local government sector, where organisations are able to submit their accounts in reasonable quality to us by agreed deadlines, we too are able to play our part. That said, that's the one area where I have a degree of ongoing concern, because it seems potentially a growing number of bodies in that sector are not able to provide us with their accounts in a timely fashion."*[16]

**14.** Mae cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer adrodd yn amserol ac yn effeithiol (Dangosydd 2) hefyd wedi cynyddu, ac mae ei statws wedi newid o "angen gwelliant sylweddol" yn 2023-24 i "angen gwelliant" yn 2024-25. Yn erbyn targed o 90 y cant, cyflawnodd Archwilio Cymru 81 y cant o gynhyrchion archwilio allweddol eraill yn unol â'r amserlen arfaethedig (76 y cant yn 2023-24).

**15.** Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio mai'r prif reswm dros fethu â chyrraedd targed Dangosydd 2 oedd y penderfyniad i ddargyfeirio adnoddau i gyflawni'r gwaith ar y cyfrifon statudol. Serch hynny, cyfeiriodd at wneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio perfformiad lleol a bron haneru nifer y diwrnodau o oedi:

> *"… our objective as an organisation is to get all of our local government performance audit work completed by 30 June and back on track by 30 June 2026, and our local NHS work by 31 March 2026. I'm confident that we're going to achieve that, certainly on the local government side, interestingly, for performance audit work. On the NHS side, we have had some significant levels of sickness this year. There aren't as many staff available in the marketplace, really, for us to bring in as relief*

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 23

*contractors—so, a little bit more worried about that area, but hopeful that we can get there."*[17]

**16.** Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'r lefelau sylweddol o salwch a grybwyllir yn fawr o ran maint ond eu bod yn cael effaith anghymesur ar allu timau archwilio perfformiad lleol sy'n dimau cymharol fach.[18]

**17.** Pan ofynnwyd iddo a oedd unrhyw dystiolaeth bod y gwaith sydd heb ei wneud wedi arwain at rannau o'r sector cyhoeddus yn tanberfformio, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"… that's, fundamentally, the driver for why we need to improve the timeliness of delivery. I wouldn't say that we've seen direct failure or weakness as a result of an absence of our work, but we know from conversations and engagement with our stakeholders that that is something that matters to them and they'd like to see us improve."*[19]

**18.** Nodir bod "angen gwelliant" o ran nifer yr archwiliadau a adolygir sy'n cael eu cyflawni unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (Dangosydd 3). Yn erbyn targed o "Mae'r holl archwiliadau a samplwyd yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf", cyflawnodd Archwilio Cymru chwech allan o wyth archwiliad a samplwyd. Mae hyn yn cymharu â saith allan o saith archwiliad a samplwyd yn 2023-24. Noda'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon:

> *"Mae'r materion sy'n gyfrifol am fethiant y ddau archwiliad i gyflawni ein targed yn benodol i'r archwiliadau hynny. Ein dull mewn amgylchiadau o'r fath yw ymgymryd ag ymarfer i ddeall pam y cafwyd y materion hyn ac i ganiatáu i'r sefydliad ddysgu gyda'i gilydd a symud ymlaen gyda'i gilydd. Cyflawnodd dau o'r wyth archwiliad a samplwyd y sgôr uchaf, sy'n welliant ar y blynyddoedd blaenorol."*[20]

**19.** Cafwyd data perfformiad ar gyfer Dangosydd 4 (Hygrededd), Dangosydd 5 (Darparu mewnwelediad) a Dangosydd 6 (Sbarduno gwelliannau) o ymarfer ymchwil rhanddeiliaid annibynnol a gynhaliwyd ar ddechrau 2025. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi, oherwydd y nifer bach o ymatebwyr,

---

[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 28
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 35
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 30
[20] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalennau 16 a 27

bod y ffin cyfeiliorniad yn y canlyniadau yn uchel (+/- 12 i 14 y cant) ac felly "gall ymddiriedaeth fod yn gyfyngedig o ran cymharu blwyddyn ar ôl blwyddyn".[21]

**20.** Mae Dangosydd 4, sy'n mesur cyfran y rhanddeiliaid sy'n ystyried bod Archwilio Cymru yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau, wedi gostwng o 92 y cant yn 2023-24 i 76 y cant yn 2024-25. Y targed ar gyfer y Dangosydd hwn yw "O leiaf 90 y cant" ac mae yn y categori "angen gwelliant".[22]

**21.** Mae cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd, drwy waith Archwilio Cymru, eu bod wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall (Dangosydd 5), wedi cynyddu o 64 y cant yn 2023-24 i 78 y cant yn 2024-25. Mae'r Dangosydd hwn yn y categori "cyrhaeddom ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd" (targed: O leiaf 80 y cant).[23]

**22.** Mae Dangosydd 6, sy'n mesur cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod gwaith Archwilio Cymru wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, wedi gostwng i 62 y cant yn 2024-25, o 76 y cant yn 2023-24. Nodir bod "angen gwelliant" o ran y Dangosydd hwn (targed: O leiaf 80 y cant).[24]

**23.** Priodolodd yr Archwilydd Cyffredinol y perfformiad yn erbyn Dangosyddion 4-6 i'r dull casglu data a fabwysiadwyd, yn hytrach na newid gwirioneddol ym marn y rhanddeiliaid. Am yn ail flwyddyn mae Archwilio Cymru yn cynnal arolwg annibynnol mawr o randdeiliaid, a gynhelir yn annibynnol, ac arolygon rhanddeiliaid mewnol mwy cul am yn ail flwyddyn er mwyn rheoli costau:

> *"… but that led to a break in comparability year on year. Understandably, the committee asked us to reconsider that last year, and our board did as well. So, the approach we took last year was to split our stakeholders into two groups; we'd survey half one year, half the other. We felt that that would still deliver reliable results. So, we went to over 200 individuals, we went to all Senedd Members as well, but unfortunately, the response rate was low, and we heard back from just over 40 individuals, which means that all of those numbers are really susceptible to fluctuation."*[25]

[21] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 17
[22] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 17
[23] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 17
[24] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 17
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 38

**24.** Yn dilyn cyfradd ymateb arbennig o isel gan sector y GIG, bu Archwilio Cymru yn gweithio gyda chyfarwyddwyr llywodraethu ym mhob corff y GIG, a gydlynodd ymatebion mwy llawn a arweiniodd at ymateb o 100 y cant yn erbyn y dangosydd perfformiad allweddol cyntaf ac ymhell uwchlaw 80 y cant ar gyfer y ddau arall.[26]

**25.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym y bydd yn mabwysiadu dull annibynnol unwaith eto yn 2025-26 i gynnal arolwg o'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau'r Senedd, gan ychwanegu:

> *"… we as Audit Wales will throw the kitchen sink at trying to increase awareness and engagement to explain the importance of that, so that yourselves or your successor committee, the board and my successor have a reliable baseline from which to work. And moving forward after that, if I were around, my recommendation would be not to attempt to replicate that on an annual basis, to find another lighter-touch way to sense-check that year on year, and perhaps run that bigger exercise once or twice in a Senedd term."*[27]

**26.** Mae Dangosydd 7 yn mesur gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd drwy waith Archwilio Cymru, ac mae yn y categori "cyrhaeddom ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd". Mae'r targed ar gyfer y mesur hwn yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, 2023-2026, felly 2024-25 yw ail flwyddyn y cyfnod tair blynedd hwn. Dywed Archwilio Cymru ei fod wedi arbed £16 miliwn yn 2024-25. Targed y Dangosydd yw "o leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026". Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn tynnu sylw at waith archwilio penodol sydd ar y gweill a ddylai alluogi Archwilio Cymru i gyflawni'r targed arbedion cyffredinol erbyn 2026.[28]

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu (Dangosyddion 8-11)

**27.** Mae'r pedwar Dangosydd o dan y thema hon yn ymwneud ag ymgysylltu ar draws digwyddiadau, gwefan Archwilio Cymru, cyfryngau cymdeithasol a rhannu a dysgu. Mae tri o'r dangosyddion yn y categori "cyrhaeddom ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd":

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 39
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 40
[28] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 17

- Allbynnau arfer da (Dangosydd 8): Roedd cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd fod allbynnau digwyddiadau arfer da Archwilio Cymru yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn yn 100 y cant yn erbyn targed o “O leiaf 90 y cant”;

- Mae ymweliadau â'r wefan (Dangosydd 9) wedi cynyddu o 59,100 yn 2023-24 i 81,000 yn 2024-25 (targed: 48,000 bob blwyddyn);

- Rhannu'r hyn a ddysgir o archwilio (Dangosydd 11): Mae nifer yr achosion lle mae Archwilio Cymru wedi cyflwyno'r hyn a ddysgwyd i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol, wedi cynyddu o 45 yn 2023-24 i 53 yn 2024-25 (yn erbyn targed o 50 bob blwyddyn).[29]

**28.** Mae'r Dangosyddion sy'n weddill yn y categori hwn yn mesur perfformiad yn ôl nifer yr ymgysylltiadau ar gyfryngau cymdeithasol. Nodir bod Dangosydd 10 yn y categori “angen gwelliant” gan fod nifer yr ymgysylltiadau wedi gostwng i 3,500 yn 2024-25 o gymharu â 4,000 yn 2023-24 (yn erbyn targed o 4,000).[30]

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu (Dangosyddion 12-18)

**29.** Mae'r saith Dangosydd o fewn y thema hon yn ymwneud â staff Archwilio Cymru a sut y caiff y busnes ei redeg. Cyflawnodd Archwilio Cymru bedwar o'r dangosyddion hyn yn 2024-25 (o'i gymharu â phump yn 2023-24) ac roedd tri ohonynt yn y categori “angen gwelliant” (o'i gymharu â dau yn 2023-24).[31]

**30.** Mae ei berfformiad yn 2024-25 yn erbyn y ddau Ddangosydd yn y categori hwn ble roedd “angen gwelliant” yn 2023-24 wedi gwella: sef trosiant (Dangosydd 13), ble y cyrhaeddwyd y targed yn 2024-25; a chyfradd llwyddiant hyfforddeion (Dangosydd 18), ble mae angen gwelliant o hyd.[32]

**31.** Caiff y Dangosydd ar gyfer ymgysylltu â chyflogeion ei fesur gan sgôr mynegai ymgysylltu yr arolwg staff blynyddol (Dangosydd 12). Gyda tharged o o leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y Gwasanaeth Sifil (64 y cant), sgoriodd Archwilio Cymru 71 y cant yn 2024-25 (cynydd o gymharu â 64 y cant yn 2023-24).[33]

---

[29] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 18
[30] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 18
[31] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19
[32] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19
[33] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19

**32.** Gan fyfyrio ar ganlyniadau'r arolwg staff blynyddol ar gyfer 2024-25, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"... we saw improvements across the board in every single area that we questioned: so, in leadership, in how we handle change, in how we focus on learning and development, in how teams operate together—so, really encouraging. It's encapsulated in our overall staff engagement score of 71 per cent. To put that in perspective, that's the highest engagement score that our organisation has ever recorded in its history, and, if you compare us with 100 plus organisations in the public service across the UK who measure engagement in the same way, that puts us in the top 10."*[34]

**33.** Mesurir trosiant staff (Dangosydd 13) yn ôl cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru yn wirfoddol bob blwyddyn (targed o rhwng 5 y cant a 10 y cant). Mae perfformiad yn erbyn y targed hwn yn y categori "cyrhaeddom ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd", gyda sgôr o 5.8 y cant yn 2024-25 (12.3 y cant yn 2023-24).[35]

**34.** Mae cyfartaledd y dyddiau gwaith a gollwyd fesul aelod o staff oherwydd salwch (Dangosydd 14) wedi cynyddu i 3.9 y cant (8.7 diwrnod) o gymharu â 3.3 y cant (7.1 diwrnod yn 2023-24). Gwelwyd gostyngiad bach yn y gyfradd absenoldeb tymor byr (collwyd 2.9 diwrnod yn 2024-25, gostyngiad o gymharu â 3.1 diwrnod yn 2023-24), ond gwelwyd cynnydd mwy mewn absenoldeb tymor hwy (i 5.8 diwrnod a gollwyd yn 2024-25 o 4.0 diwrnod a gollwyd yn 2023-24).[36]

**35.** Dywedodd y Cadeirydd wrthym y gall ychydig o absenoldebau hirdymor mewn sefydliad bach gamliwio'r data ac, er ei fod yn pryderu am yr effaith ar staff a gwaith, roedd y Bwrdd yn fodlon bod yr arweinwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w reoli a rhoi camau lliniaru ar waith. Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol fod nifer bach o absenoldebau hirdymor wedi dod i ben, a bod y data mwy diweddar yn bendant yn mynd i'r cyfeiriad cywir.[37]

**36.** Nodir bod "angen gwelliant" mewn perthynas â'r perfformiad yn erbyn Dangosydd 15. Fe'i mesurir gan yr amrywiant yn y tanwariant net ar incwm a gwariant o'i gymharu â'r Amcangyfrif. Mae'r targed blynyddol yn llai na 2 y cant o'r

---

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 24
[35] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19
[36] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 33 a 35

gyllideb gwariant gros. Yn 2024-25, mae Archwilio Cymru yn adrodd tanwariant net o £864,000, sy'n cyfateb i 3.2 y cant o'i gyllideb gwariant gros, sy'n gynnydd o gymharu ag 1.1 y cant yn 2023-24. Wrth ymdrin â pherfformiad yn erbyn targed y Dangosydd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"We undershot that considerably, so it's bad news in a sense, because we've got a non-green KPI. Why that is, though, is because we massively over-delivered on income. We exceeded our ambit for income for the year, and so returned that additional funding to the public purse, while simultaneously having some underspends on our staffing in non-fee-earning areas."*[38]

**37.** Mae Archwilio Cymru wedi cyflawni'r dangosydd arbedion costau (Dangosydd 16), a fesurir yn ôl gwerth yr arbedion costau yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes. Mae'n adrodd ei fod wedi rhagori ar ei darged arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau £400,000.[39]

**38.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol wrthym fod grŵp adolygu cynaliadwyedd ariannol y sefydliad wedi nodi arbedion mewn amrywiaeth o feysydd (TG, swyddfeydd ac ystadau, a theithio a chynhaliaeth) a dychwelyd yr arbedion hyn i Gronfa Gyfunol Cymru.[40]

**39.** Nodwyd bod "angen gwelliant" o ran y perfformiad yn erbyn y targed allyriadau nwyon tŷ gwydr (Dangosydd 17), a fesurwyd gan gyfanswm yr allyriadau CO2 cyfatebol, gydag Archwilio Cymru yn adrodd am 380 tunnell o allyriadau yn 2024-25 (cynnydd o gymharu â 280 tunnell yn 2023-24). Mae Archwilio Cymru yn priodoli'r lefelau uwch i lefelau uwch o bresenoldeb staff yn ei swyddfeydd a safleoedd cyrff a archwilir.[41]

**40.** Mae cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch y tro cyntaf gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr wedi gwella, o 82 y cant yn 2023-24 i 85 y cant yn 2024-25. Nodir bod "angen gwelliant" o ran Dangosydd 18 (gan mai o leiaf 90 y cant yw'r targed).[42]

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 18
[39] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 51-42
[41] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19
[42] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 19

## Atebolrwydd a llywodraethu

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

**41.** Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi bod y Bwrdd yn:

> *"... fodlon bod lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau cysylltiedig o risg a aseswyd. Mae'r Bwrdd hefyd yn fodlon ar ansawdd y wybodaeth y mae'n ei []derbyn, sy'n cael ei [h]ategu gan ddata a gyflwynir mewn Dangosfwrdd Gwybodaeth Rheoli a ddatblygwyd yn ddiweddar, er ei fod o'r farn bod lle i wella ffocws a fformat rhai elfennau o adrodd ariannol."*[43]

**42.** Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r Dangosfwrdd Gwybodaeth Rheoli (y dangosfwrdd) a ddatblygwyd yn ddiweddar:

> *"... over the past 15 months or so, we've undertaken quite a big piece of work internally that cuts across the performance of the whole organisation, and now we have the dashboard that includes themes like delivery of financial audit, delivery of performance audit, finance, people, KPI performance, risks and annual plan priorities ..."*[44]

**43.** Caiff y dangosfwrdd ei adolygu'n ffurfiol bob mis gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ac mae ar gael i bob aelod o'r Bwrdd. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cynnig crynodebau lefel uchel a'r gallu i weld data manwl, gan ei wneud yn offeryn rheoli gwerthfawr.[45]

**44.** Er nad yw Archwilio Cymru wedi trafod a fydd y dangosfwrdd ar gael i'r cyhoedd, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod rhai elfennau'n cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mynegodd ei fod yn agored i sicrhau mwy o dryloywder, gan gyfeirio at gyhoeddi canlyniadau'r arolwg pobl a'r ymdrechion a wnaed i wella amlygrwydd y rhaglen archwilio ar y wefan.[46]

---

[43] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 64
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 54
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 59
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 65

**45.** Cynhaliodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd yn 2024-25, a ddaeth i'r casgliad fod "y bwrdd yn gweithredu'n effeithiol gyda rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi".[47]

**46.** O ran y camau a gymerwyd yn dilyn yr hunanasesiad, cyfeiriodd y Cadeirydd at fabwysiadu dull gwneud penderfyniadau sy'n fwy seiliedig ar ddata, gwella effeithlonrwydd cyfarfodydd, datblygu aelodau'r Bwrdd a chynyddu ymgysylltiad ac amlygrwydd y Bwrdd. Soniodd hefyd am amrywiaeth ymysg aelodau'r Bwrdd:

> *"I'm very much aware that the appointment of non-executive board members is the responsibility of the Finance Committee, and I was very pleased to be invited to be part of recent appointment processes, but we still need to diversify board membership in terms of skills, backgrounds and experience."*[48]

## Archwilio Mewnol

**47.** Cyhoeddodd TIAA, archwilwyr mewnol Archwilio Cymru a benodwyd am gofnod o dair blynedd sy'n dod i ben ym mis Mehefin 2026, naw adroddiad archwilio mewnol yn ystod 2024-25. Mae'r datganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2024-25 yn nodi:

> *"Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Archwilio Cymru brosesau rheoli, rheoli a llywodraethu risg rhesymol ac effeithiol."*[49]

**48.** O'r naw adroddiad archwilio mewnol, roedd un yn adroddiad cynghorol (rheoli perfformiad staff), nodwyd bod "sicrwydd sylweddol" mewn pedwar o'r meysydd, a "sicrwydd rhesymol" mewn pedwar maes arall. Roedd yr adroddiadau "sicrwydd rhesymol" yn cwmpasu ystod o feysydd gweithredol a strategol, gan gynnwys seilwaith TGCh, dysgu a datblygu, defnyddio offer deallusrwydd artiffisial, a chyfrifoldebau rheoli staff.[50]

**49.** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol na wnaed unrhyw argymhellion brys a bod y sefydliad wedi cymryd camau amserol ac effeithiol i fynd i'r afael â phob argymhelliad. Roedd y camau gweithredu allweddol yn cynnwys diweddariadau polisi, cydweithio rhyngadrannol gwell,

---

[47] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 64
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 77-79
[49] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 68
[50] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalennau 69-71

lansio peilot deallusrwydd artiffisial newydd, a datblygu rhaglen hyfforddi ffurfiol ar gyfer rheolwyr llinell newydd.[51]

## Risg

**50.** Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r trefniadau rheoli risg yn Archwilio Cymru, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system o reolaethau mewnol, gyda chefnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.[52]

**51.** Noda'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon fod "nifer o risgiau strategol allweddol yn amrywio yn ystod y cyfnod adrodd ac yn arbennig yn ymwneud ag amser yr ELT a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg", gan gynnwys:

- Effaith y newid annisgwyl yng Nghadeirydd y Bwrdd;
- Methiant i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig yn ddigonol;
- Prosesau aneffeithiol o ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau archwilio;
- Newidiadau mewn uwch arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth.[53]

**52.** Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol yn "fodlon bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn".[54]

**53.** Mae nifer o risgiau newydd a risgiau parhaus yn 2025-26 wedi'u cynnwys yn y gofrestr risgiau strategol:

- Pwysau llwyth gwaith a gwytnwch;
- Cydbwyso'r cyflenwad a'r galw am adnoddau dros y tymor canolig;
- Seilwaith TG a seiberddiogelwch.[55]

**54.** Clywsom hefyd fod maes allweddol o risg strategol a nodwyd yn ymwneud â newidiadau mewn arweinyddiaeth o fewn y sefydliad oherwydd bod yr

[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 83-96
[52] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 65
[53] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalennau 72-73
[54] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 73
[55] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 73

Archwilydd Cyffredinol ar fin gadael ei swydd a newidiadau disgwyliedig ar lefel uwch. Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"But also change in the Senedd. That's going to be an enormous change for us. So, we're very keen to try to engage with, clearly, all of the parties represented, but potentially new parties that may be represented in the reformed Senedd, so that there's a good understanding of us and our work and how we can contribute."*[56]

**55.** O ran recriwtio a chadw staff, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod gan y sefydliad bellach lefel uchel o staff. Fodd bynnag, tynnodd sylw at risg bosibl yn y dyfodol oherwydd cynlluniau Llywodraeth y DU i fuddsoddi yn y sector:

> *"There's a new office likely to be established called 'the local audit office', which will be doing, essentially, what we do at a local level in England. But it will be much bigger than us, and they will need staff, and we potentially will look like a fabulous source for that."*[57]

## Staff

**56.** Gwelwyd cynnydd o 19 yn nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn, o 269 yn 2023-24 i 288 yn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o naw yn nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn barhaol (i 224) a staff a gyflogwyd ar gontractau tymor penodol yn ystod y flwyddyn (i 62). Cynyddodd nifer y contractwyr archwilio ac arolygu o un i ddau.[58]

**57.** Yn 2024-25, derbyniodd un aelod o staff daliad diswyddo o £13,665.[59]

**58.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd y taliad yn ymwneud ag ymadawiad gwirfoddol:

> *"… it followed a very extended and sensitive personnel case that was investigated by an external expert. The end result of that was that we agreed the best solution was to agree a managed*

---

[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 70
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 74
[58] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 86
[59] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 85

*exit from the organisation, which resulted in a relatively small payment, which is referenced in the accounts."*[60]

## Alldro

**59.** Roedd y gwariant gros ar gyfer 2024-25 yn £26.1 miliwn, sef £0.8 miliwn yn is nag yn yr Amcangyfrif neu'r gyllideb (£26.9 miliwn) a £3.0 miliwn yn uwch nag yn 2023-24 (£23.0 miliwn).[61]

**60.** Adroddir ar yr alldro ar gyfer incwm ar y lefel a nodir yn yr Amcangyfrif, sef £17.5 miliwn. Fodd bynnag, roedd incwm gwirioneddol Archwilio Cymru £961,000 yn fwy na'r Amcangyfrif. Roedd hyn oherwydd:

- Ffioedd archwilio: mae cynnydd ar yr ôl-groniad archwilio yn well na'r disgwyl (alldro o £598,000 yn fwy na'r Amcangyfrif);
- Ffioedd ardystio grant: gwnaed mwy o waith yn ystod y flwyddyn (alldro o £349,000 yn fwy na'r Amcangyfrif); a
- Incwm arall (alldro o £14,000 uwchlaw'r Amcangyfrif).[62]

**61.** Mae'r gofyniad arian parod net wedi'i addasu i adlewyrchu'r incwm dros ben hwn.[63]

**62.** Mynegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Wasanaethau Archwilio effaith yr incwm dros ben hwn ar yr adnoddau a ofynnwyd amdanynt ar gyfer 2025-26:

> *"…we have consequently set ourselves a higher income target, as we are recognising the fact that we are continuing to push through that backlog at a faster-than-anticipated rate. So, expected income for this year is £18.6 million. Compared to last year, I think we were anticipating initially £17.5 million, even though we did overdeliver. So, this year's estimate—or the amount that we're anticipating this year—is about what we delivered last year, which is where I would be expecting us to be."*[64]

[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 105
[61] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 93 ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 8
[62] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 95
[63] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 96
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 94

**63.** Roedd y tanwariant net ar adnoddau £864,000 yn llai na'r Amcangyfrif, sef £8.6 miliwn (2023-24: £8.2 miliwn).[65]

**64.** Roedd y gofyniad arian parod net yn £7.1 miliwn, sydd £2.0 miliwn yn llai na'r Amcangyfrif (2023-24: £8.3 miliwn).[66]

**65.** Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cynnwys dadansoddiad o alldro adnoddau net ar gyfer 2024-25 sy'n dangos bod y tanwariant mwyaf yn erbyn yr Amcangyfrif yn ymwneud â chostau staff o £1.0 miliwn.[67]

**66.** Er gwaetha'r ffaith i Archwilio Cymru recriwtio mwy o staff i gyflawni'r ôl-groniad o waith archwilio, eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y gwnaed arbedion mewn perthynas â swyddi gwag mewn rolau nad ydynt yn cynhyrchu incwm ffioedd:

> *"… the vacancies at the beginning of 2024-25 were mainly in the trainee and apprentice grades, and because of the heavy amount of training that they undertake when they first join us, they're not terribly chargeable anyway in those first few months. So, the impact on us was pretty low—you'd expect less staff at points in the year, less income. It didn't work out quite that way because of where the vacancies were."*[68]

## Canfyddiadau'r Archwiliad

**67.** Ni chododd archwilwyr annibynnol SAC, sef RSM UK Audit LLP (RSM), unrhyw faterion yn ei adroddiad sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.[69]

**68.** Rhannodd RSM ei adroddiad ar ganfyddiadau ei archwiliad gyda'r Pwyllgor hefyd, sy'n crynhoi ei brif ganfyddiadau mewn cysylltiad ag archwiliad o ddatganiadau ariannol Archwilio Cymru mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad yn amlinellu tri maes risg archwilio:

- Cydnabod refeniw – gwaith sy'n mynd rhagddo ac incwm gohiriedig (wedi'i raddio fel risg sylweddol);
- Rheolwyr yn diystyru rheolaethau (a nodwyd fel risg sylweddol);

[65] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 93
[66] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 93
[67] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 94
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 98
[69] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, tudalen 94

- Rheoleidd-dra (a nodwyd fel risg uwch).[70]

## Barn y pwyllgor

**69.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd y mae Archwilio Cymru wedi'i wneud yn 2024–25, yn enwedig yr ymdrechion sylweddol a wnaed i fynd i'r afael â'r ôl-groniad archwilio statudol ar ôl COVID. Nodwn fod terfynau amser archwilio statudol bellach yn cael eu bodloni yn y GIG a'r llywodraeth ganolog, er bod rhai pryderon yn parhau ynghylch amseroldeb rhai cyfrifon yn y sector llywodraeth leol.

**70.** Er ein bod yn cydnabod y gwaith archwilio statudol a gyflawnwyd yn 2024-25, nodwn nad yw'r gwaith archwilio perfformiad a gyflawnwyd wedi cyrraedd targed y Dangosydd. Rydym yn derbyn bod hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod adnoddau archwilio perfformiad wedi cael eu dargyfeirio i gynorthwyo gyda chyflawni'r gwaith archwilio statudol – penderfyniad a gefnogwyd gennym yn adroddiad y llynedd.[71] Serch hynny, mae'n galonogol gweld bod statws y perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn wedi gwella. Nodwn y bwriad i unioni'r ôl-groniad yn hanner cyntaf 2026 ond rydym hefyd yn ymwybodol bod absenoldeb salwch hirdymor yn parhau i fod yn bryder, a bod goblygiadau difrifol i dimau archwilio perfformiad bach y GIG o fewn Archwilio Cymru yn ogystal ag i gynhyrchiant cyffredinol y sefydliad.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i liniaru effaith absenoldeb salwch hirdymor ar gyflawni gwaith archwilio perfformiad y GIG yn llwyddiannus yn 2025-26.

**71.** Nodwn yr amrywiadau sylweddol mewn data perfformiad sy'n ymwneud â hygrededd Archwilio Cymru, y mewnwelediad y mae'n ei ddarparu, a'i effaith o ran ysgogi gwelliant (Dangosyddion 4–6). Er ein bod yn cydnabod esboniad yr Archwilydd Cyffredinol bod yr amrywiadau hyn i'w priodoli'n bennaf i newidiadau methodolegol yn y dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid, maent serch hynny yn codi pryderon ynghylch dibynadwyedd a chymaroldeb data perfformiad dros amser.

**72.** Rydym yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed i ymchwilio i'r gyfradd ymateb isel gan gyrff y GIG ac yn croesawu'r ymrwymiad i gynnal arolwg mwy cynhwysfawr o randdeiliaid, a gynhaliwyd yn annibynnol, yn 2025–26, wedi'i

[70] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025
[71] Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2024, tudalen 26

gefnogi gan ymgyrch ymwybyddiaeth ac ymgysylltu. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu nad yw'r dull presennol wedi cynhyrchu sylfaen dystiolaeth ddigon cadarn i asesu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn y gellid ei defnyddio i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru ystyried cyflwyno methodoleg ymgysylltu â rhanddeiliaid gyson sy'n ystadegol gadarn ar gyfer adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol, er mwyn gallu gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn.

**73.** Rydym yn falch bod y sefydliad wedi cael y sgôr uchaf erioed ar gyfer ymgysylltu â staff, ac yn falch o glywed sylwadau cadarnhaol yr Archwilydd Cyffredinol ar y diwylliant sy'n esblygu yn Archwilio Cymru. Mae'r newid calonogol mewn sefydlogrwydd sefydliadol a chyfraddau cadw staff hefyd i'w groesawu, fel y dangosir gan berfformiad yn erbyn y targed trosiant staff. Credwn fod cynaliadwyedd a datblygiad hirdymor y gweithlu hefyd yn dibynnu ar raglenni hyfforddeion a phrentisiaethau Archwilio Cymru a nodwn fod angen rhagor o welliant er mwyn cyrraedd y targed ar gyfradd llwyddiant hyfforddeion. Noda'r Pwyllgor ymhellach sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y risg bosibl yn y dyfodol yn sgil sefydlu swyddfa archwilio leol newydd yn Lloegr, a allai geisio recriwtio staff profiadol o Archwilio Cymru. Credwn ei bod yn rhaid cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu Archwilio Cymru rhag y pwysau sy'n gysylltiedig â recriwtio allanol a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru ddatblygu strategaeth cadw'r gweithlu wedi'i thargedu er mwyn lliniaru'r risg o golli staff i gyrff archwilio cyhoeddus eraill, gan gynnwys meincnodi cyflogau a buddion, llwybrau datblygu gyrfa a chynllunio olyniaeth.

**74.** Er y bu cynnydd yn nifer y dyddiau gwaith cyfartalog a gollwyd oherwydd salwch, gan godi o 3.3 y cant yn 2023-24 i 3.9 y cant yn 2024-25, nodwn ei fod yn dal i fod o fewn y targed perfformiad o 4 y cant. Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau'r Cadeirydd ynghylch effaith anghymesur absenoldebau hirdymor mewn sefydliad bach a'r camau lliniaru a gymerwyd gan y tîm arweinyddiaeth yn ogystal â sicrwydd yr Archwilydd Cyffredinol bod data diweddar yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

**75.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Dangosfwrdd Gwybodaeth Rheoli wedi cael ei ddatblygu ac mae'r ffaith bod y Bwrdd yn adolygu'r dangosfwrdd yn fisol a'i fod yn hygyrchedd i holl aelodau'r Bwrdd yn galonogol, gan fod hynny'n cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod

bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon ystyried cynyddu cynnwys y dangosfwrdd sydd ar gael i'r cyhoedd, a chynnwys rhai elfennau yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Fodd bynnag, credwn y gellid cymryd camau pellach i gefnogi mwy o dryloywder a gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid, o ystyried rôl y dangosfwrdd o ran ategu goruchwyliaeth strategol a monitro perfformiad.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru ymchwilio i opsiynau ar gyfer cyhoeddi fersiwn gryno o'i Ddangosfwrdd Gwybodaeth Rheoli, neu fetrigau allweddol dethol, ar ei wefan.

**76.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r risgiau strategol a nodwyd gan Archwilio Cymru yn sgil y newidiadau disgwyliedig ar lefelau uwch yn y sefydliad, yn enwedig penodi Archwilydd Cyffredinol newydd i Gymru y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith y bydd Senedd mwy o faint yn ei chael ar Archwilio Cymru ac yn nodi cynlluniau'r sefydliad i ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd ar ôl yr etholiad.

# 3. Cynllun Blynyddol 2025-26 ac Adroddiad Interim 2025-26

**77.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd lunio Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim ar y cyd bob blwyddyn.[72]

**78.** Mae Cynllun Blynyddol 2025-26, a osodwyd ar 27 Mawrth 2025, yn amlinellu'r rhaglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn. Y Cynllun hwn yw'r cynllun ar gyfer pedwaredd flwyddyn strategaeth pum mlynedd gyfredol Archwilio Cymru.[73]

**79.** Mae'r Adroddiad Interim[74] yn darparu asesiad o'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2025-26 ac yn rhoi gwybodaeth am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Dangosyddion). Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Senedd ar 29 Hydref 2025.

## Cyflawni'r cylch gwaith

**80.** Fel y trafodwyd yn ystod y gwaith craffu mewn blynyddoedd blaenorol[75], mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi'r problemau ynghylch amseroldeb rhaglen waith Archwilio Cymru:

> *"… mae'n cymryd sawl blwyddyn i'r rhaglen waith fawr honno ddychwelyd i amserlenni a fodolai cyn y pandemig, ond rydym yn benderfynol o wneud hynny ac yn hyderus y byddwn yn llwyddo."*[76]

**81.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym ei fod yn benderfynol o ddileu'r ôl-groniadau cyn iddo adael y rôl yn 2026 a'i fod yn awyddus i roi 'llechen lân' i'w olynydd.[77]

**82.** Er bod yr Adroddiad Interim yn dweud bod Archwilio Cymru wedi gwneud "[c]ynnydd da ar weithio gyda chyrff a archwilir i symud yr amserlen ar gyfer

[72] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[73] Cynllun Blynyddol 2025-26, tudalen 5
[74] Adroddiad Interim 2025-26, Hydref 2025
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2024, tudalen 38
[76] Cynllun Blynyddol 2025-26, tudalen 5
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 116

cyflawni gwaith archwilio cyfrifon ymhellach ymlaen", mae hefyd yn codi pryderon ynghylch gallu'r sector llywodraeth leol i "gynhyrchu cyfrifon o ansawdd uchel a phrydlon ar gyfer 2025-26".[78]

**83.** Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio at ostyngiad yn nifer y cyfrifon a oedd yn cael eu cyflwyno'n brydlon, ac mai dim ond 23 o blith y 40 o gyfrifon disgwyliedig a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin, o'i gymharu â 31 y flwyddyn flaenorol. O blith y rheini, dim ond 17 archwiliwyd erbyn y dyddiad cau statudol o 31 Hydref.[79]

**84.** Priodolodd Archwilio Cymru yr oedi hwn i sawl ffactor megis:

- Cyfyngiadau ar gapasiti o fewn timau cyllid llywodraeth leol;
- Colli staff profiadol ac anawsterau recriwtio;
- Blaenoriaethau a oedd yn cystadlu â'i gilydd o fewn awdurdodau sydd dan straen ariannol;
- Cymhlethdod technegol yn ymwneud â materion cyfrifyddu.[80]

**85.** Trafododd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio gyfres o fesurau cymorth i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys cynnal digwyddiadau arfer da i wella'r ddealltwriaeth o ofynion archwilio, cytuno ar gynlluniau cyflawni realistig ar gyfer cyrff a fethodd derfynau amser, ac ymgysylltu'n rheolaidd â thimau cyllid a Chymdeithas Trysoryddion Cymru.[81]

**86.** Gan nodi bod cefnogaeth yn hanfodol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod angen cynyddu'r pwysau ar gyrff a archwilir hefyd i fodloni terfynau amser:

> *"This is not a 'nice to have', this is really, really important. And we've seen from experience in England how damaging it can be if these kinds of things slip too far."*[82]

**87.** Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd at y flaenoriaeth y mae sefydliadau unigol yn ei rhoi i'r gwaith hwn:

---

[78] Adroddiad Interim 2025-26, Hydref 2025, tudalennau 4 a 6
[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 42, 48 a 50
[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 54-55
[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 45 a 52
[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 46

> *"… I can well understand if you're an organisation under severe financial strain, tidying up last year's numbers and getting it through the audit goes down the priority list as you look to the current year and how you're going to manage your budget in-year. I can understand that, but it's a slippery slope… some of it, as well as operational capacity, comes down to the strength of leadership prioritisation within organisations, I would say."*[83]

**88.** Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddaraf ar ffioedd, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd yn ysgrifennu at bob corff a archwilir yn fuan i esbonio'r cynnydd mewn ffioedd:

> *"… one of the points I'm making there is the importance of meeting the deadlines that we set. And it's important not so that Audit Wales can have a green key performance indicator, it's important because organisations need reliable, timely financial statements to take sensible decisions. And when some authorities in the local government space are so close to financial sustainability, that's even more important."*[84]

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

**89.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi bod Archwilio Cymru wedi adolygu targedau ei Ddangosyddion "gan gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol a meincnodau allanol priodol, er mwyn sicrhau aliniad â'n huchelgeisiau cyffredinol a'n strategaeth ar gyfer eu cyflawni".[85]

**90.** Gan fyfyrio ar yr adolygiad hwn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"There are a number of our KPIs—I spoke about the stakeholder survey one, for instance—where I genuinely think we just need to break the continuity and do something different. Others, you will see in the list, are around our social media presence. That feels to me like something where potentially we might need to revisit, because the world of social media has changed, bluntly, and we're seeing that reflected in our reach, also how proactively we engage with platforms like X."*[86]

[83] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 55
[84] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 46
[85] Cynllun Blynyddol 2025-26, tudalen 26
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 121

**91.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw hefyd at y tensiwn rhwng y targed allyriadau a'r awydd i staff ymgysylltu wyneb yn wyneb â chyrff a archwilir:

> *"… obviously that comes with a degree of travel, which has a negative impact against that indicator. So, we're looking closely at that one. We won't change it lightly, but we want to be realistic about the sort of target that we can aspire to."*[87]

## Barn y pwyllgor

**92.** Rydym yn cydnabod ymdrechion parhaus Archwilio Cymru i adfer o'r oedi a achoswyd i'r gwaith archwilio yn sgil y pandemig ac yn nodi ymrwymiad personol yr Archwilydd Cyffredinol i ddileu'r ôl-groniadau cyn i'w dymor yn y swydd ddod i ben yn 2026. Rydym yn cefnogi'r uchelgais hon ac yn cydnabod pwysigrwydd rhoi "llechen lân" i'w olynydd.

**93.** Serch hynny, rydym yn dal i fod yn bryderus ynghylch yr heriau parhaus yn ymwneud â chyflawni gwaith archwilio yn amserol, yn enwedig yn y sector llywodraeth leol. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch y dirywiad yn nifer y cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno'n brydlon a goblygiadau hyn i drefniadau llywodraethu ariannol a gwneud penderfyniadau cadarn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r cymorth wedi'i dargedu a gynigir gan Archwilio Cymru, gan gynnwys digwyddiadau arfer da a chynlluniau cyflawni realistig. Er bod y rhain yn gamau cadarnhaol, rydym yn cytuno bod yn rhaid cydbwyso cymorth ag atebolrwydd ac rydym yn cefnogi bwriad yr Archwilydd Cyffredinol i atgyfnerthu'r disgwyliadau drwy ohebiaeth arfaethedig â chyrff a archwilir.

**94.** Nodwn y materion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys ynghylch blaenoriaethu'r gwaith hwn gan sefydliadau a allai fod dan straen ariannol difrifol. Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau ar gapasiti, cynllunio olyniaeth, a recriwtio staff o fewn timau cyllid awdurdodau lleol. Credwn fod angen i aelodau etholedig, y tu hwnt i arweinwyr y cabinet, fod yn gwbl ymwybodol o'r risgiau a achosir yn sgil oedi cyn cyflwyno cyfrifon a sicrhau bod trefniadau llywodraethu ariannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Felly, rydym yn bwriadu ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i dynnu sylw at ein pryderon ynghylch gallu awdurdodau lleol i gyflwyno cyfrifon o ansawdd uchel yn brydlon. Byddwn hefyd yn gofyn am eglurder ynghylch pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â chapasiti o fewn awdurdodau lleol yn

[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 122

ogystal â'r cynnydd ar gynllunio olyniaeth o fewn timau cyllid ac ymwybyddiaeth arweinwyr o risgiau'n gysylltiedig â llywodraethu ariannol.

**95.** O ran y Dangosyddion, mae'r Pwyllgor yn nodi'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ac yn cydnabod yr angen posibl i ailystyried rhai mesurau er mwyn addasu i gyd-destunau sy'n newid, gan gynnwys ymgysylltu digidol a thargedau amgylcheddol. Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i ddangosyddion perfformiad allweddol fod yn dryloyw, cael eu cyfiawnhau'n glir a, lle y bo'n bosibl, caniatáu cymhariaeth â pherfformiad blaenorol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai unrhyw ddiwygiadau i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Archwilio Cymru gael eu hategu gan resymeg glir a, lle y bo'n bosibl, sicrhau parhad mewn o ran dangosyddion blaenorol er mwyn gallu olrhain perfformiad dros amser.

# 4. Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027.

**96.** Cafodd yr Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027 (yr Amcangyfrif)[88] ei baratoi ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a SAC a'i osod gerbron y Senedd ar 31 Hydref 2025, yn unol ag Adran 20(1) o'r Ddeddf.[89]

**97.** O dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno eu hamcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau gerbron y Senedd erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Noda Rheol Sefydlog 20.22:

> *"Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol [Y Pwyllgor Cyllid] o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."*[90]

**98.** Ar gais y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn dilyn addasu'r Amcangyfrif ar gyfer 2020-21[91], cyflwynir Amcangyfrif 2026-27 mewn dwy ran:

- Rhan 1 - Cwmpas y gyllideb
- Rhan 2 - Gwybodaeth ategol.

## Trosolwg

**99.** Mae tua dwy ran o dair o gostau rhedeg Archwilio Cymru yn cael eu talu o ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig am ei waith. Mae'r traean sy'n weddill, ynghyd â'r holl wariant cyfalaf, yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.[92]

[88] Rhan 1 – Cwmpas y gyllideb – Amcangyfrif 2026-2027
[89] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[90] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 20.22
[91] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd) – Amcangyfrif wedi'i Addasu o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2021 a Chynllun Ffioedd 2020-21, 15 Ionawr 2020
[92] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 8

**100.** Amlinellir y bydd cyfanswm gwariant gros Archwilio Cymru, gan gynnwys gwaith sy'n ennill ffioedd a gweithgaredd a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru, yn £28.8 miliwn yn 2026-27.[93]

## Gofyniad o ran adnoddau a chyfalaf gan Gronfa Gyfunol Cymru

**101.** Cyflwynir y newidiadau yng ngalwad Archwilio Cymru ar Gronfa Gyfunol Cymru yn Arddangosyn 3. Mae Archwilio Cymru yn darparu dadansoddiad o'i Amcangyfrif yn ôl adnodd (sy'n cynnwys eitemau nad ydynt yn arian parod) ac arian parod (nad yw'n cynnwys eitemau nad ydynt yn arian parod). Wrth gyflwyno ei Amcangyfrif a'r newid o flwyddyn i flwyddyn, mae'n darparu cyllideb wedi'i haddasu sy'n cynnwys/hepgor rhai eitemau. Cyfeirir at hyn fel 'sylfaen'. Mae hefyd yn darparu ffigurau cyfanswm ar gyfer ei ofynion arian parod ac adnoddau.[94]

**102.** Mae Archwilio Cymru yn dangos addasiadau i'r llinell sylfaen:

- i adlewyrchu cyllid ar gyfer cost y Fenter Twyll Genedlaethol sydd £130,000 yn uwch am yn ail flwyddyn, a
- ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod sy'n ofynnol o dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (Cyfrifyddu ar gyfer lesddaliadau) sy'n gysylltiedig â'i swyddfa yng ngorllewin Cymru (gostyngiad o £187,000).[95]

**103.** Dywed Archwilio Cymru fod yr Amcangyfrif yn gynnydd o 3.5 y cant (neu £354,000) yn ei alwad 'sylfaenol' ar adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru, i £10.3 miliwn, gan arwain at gynnydd cyffredinol o 2.9 y cant yn ei ofynion adnoddau (£297,000), i £10.5 miliwn. Noda gynnydd cyffredinol mewn arian parod o 4.6 y cant (neu £441,000), i £10.1 miliwn. Mae hyn yn cynnwys eitemau y tu allan i'r 'llinell sylfaen'.[96]

**104.** Mae hefyd yn nodi gostyngiad o £100,000 yn y gofynion buddsoddi cyfalaf ar gyfer ei Raglen Newid.[97]

**105.** Wrth gyflwyno'r Amcangyfrif i'r Pwyllgor, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym:

[93] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalennau 9 a 22
[94] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 3
[95] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 3
[96] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 3 ac Arddangosyn 3
[97] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 2

> *"It's not a particularly exciting estimate for next year. Essentially it's an estimate that will enable us to stand still. There are no major proposals to expand areas of work or increase capacity in particular areas, so it's driven essentially by the inflationary costs that we anticipate. A large element of those, obviously, will be staff costs. As usual we would assume some kind of inflationary uplift for staff pay, but also we have the contractual entitlements to increments for a lot of our staff. That's the principal driver behind the uplift."*[98]

**106.** Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd at y ffaith bod yr Amcangyfrif yn cynnwys swm bach iawn ar gyfer y rhaglen Gorwelion Archwilio, a hynny'n bennaf er mwyn cynyddu'r capasiti mewn perthynas â gwasanaethau digidol yn ogystal â'r safonau sy'n esblygu ar gyfer archwilio.[99]

## Ffioedd

**107.** Mae'r Amcangyfrif yn cyllidebu ar gyfer £18.5 miliwn mewn incwm ffioedd yn 2026-27 ac yn cynnwys Cynllun Ffioedd Drafft sy'n amlinellu cynnydd cyfartalog o 5.3 y cant mewn cyfraddau ffioedd.[100]

**108.** Gan gyfuno incwm o ffioedd ag adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at gynnydd cyffredinol yn y pecyn adnoddau o ychydig o dan 3 y cant yn 2026-27.[101]

## Datganiad o Egwyddorion

**109.** Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi Datganiad o Egwyddorion[102] y mae'n disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol roi sylw iddynt wrth lunio cynigion cyllidebol. Cytunodd y Pwyllgor i barhau i fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion ar ôl eu hadolygu'n gynharach yn y Chweched Senedd.[103]

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol:

[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 10
[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 10
[100] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalennau 23 a 26
[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 11
[102] Datganiad o egwyddorion ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, Gorffennaf 2021
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 6 Mai 2023

Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.

Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.

Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.

Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.

Lle y gofynnir am unrhyw gynnydd mewn cyllid, dylid ategu'r rhain â thystiolaeth o'r angen a'r budd, a'r ymdrechion a wnaed i leihau costau o'r fath. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

**110.** Ar 11 Gorffennaf 2025, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (Ysgrifennydd y Cabinet) ar y pryd at y Pwyllgor i amlinellu amrywiol ffactorau fel sail i'r gwaith blaengynllunio ariannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol wrth iddynt baratoi eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27.[104]

**111.** Yn ei Amcangyfrif, mae Archwilio Cymru yn cydnabod y pwysau ar gyllid cyhoeddus ac yn dweud mai’r “pwysau hyn sy’n gwneud gwaith Archwilio Cymru’n fwy hanfodol byth”.[105]

**112.** Mae Archwilio Cymru yn nodi'r sefyllfa tair blynedd o ran adnoddau ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru, sef cynnydd o 3 y cant y flwyddyn rhwng 2026-27 a 2028-29, a'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros o 1.7 y cant yn 2026-27.[106]

**113.** Mae Cyllideb Amlinellol ddiweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn defnyddio ffigurau cynnydd o 2.2 y cant ar gyfer elfennau cyflog y sector

[104] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Gorffennaf 2025
[105] Rhan 1 – Cwmpas y gyllideb – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 4
[106] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 4

cyhoeddus a 2.0 y cant ar gyfer adnoddau cyllidol nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, cyfalaf cyffredinol, ac ar gyfer cyfalaf Trafodion Ariannol.[107]

**114.** Yng ngoleuni sefyllfa Llywodraeth Cymru, cwestiynodd y Pwyllgor pam mae Archwilio Cymru yn gweithio tuag at gynnydd o 3.5 y cant yn ei gyllideb sylfaenol a chynnydd o 4.6 y cant mewn arian parod.

**115.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Archwilio Cymru yn gosod ei delerau cyflog ei hun ac yn meincnodi cyflog staff yn erbyn Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, cyrff archwilio eraill yn y DU, a'r proffesiwn cyllid ehangach. Dywedodd wrthym nad yw'r cynnydd a ragwelir mewn cyflogau yn anghydnaws â rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru ond ei fod yn cynnwys ffactorau ychwanegol fel datblygiad cyflog cynyddrannol. Clywsom nad yw cryn dipyn o'r staff ar frig eu graddfeydd cyflog, gan arwain at effaith ychydig yn fwy i'r sefydliad eleni ac am flwyddyn neu ddwy i ddod, yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol. Tynnodd sylw hefyd at 'effaith gerio' oherwydd y rhaniad rhwng y ffioedd a chyllid Cronfa Gyfunol Cymru:

> *"... with only a third of our income derived from the WCF, relatively small changes in our WCF draw can translate into what appears to be quite a significant percentage uplift. To illustrate, the difference between a 3.5 per cent uplift for the WCF for us and a 3 per cent uplift is about £50,000. So, very small amounts, but they're meaningful for our budget."*[108]

## Cynllunio wrth gefn

**116.** Mewn llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor ar 16 Ionawr 2025 mewn perthynas â chylch flaenorol o gyllideb 2025-26, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y goblygiadau ymarferol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, gan gynnwys Archwilio Cymru, pe na bai'r Senedd yn cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Flynyddol. Nododd:

> *"Os na chaiff Cynnig y Gyllideb ei basio cyn 1 Ebrill y flwyddyn ariannol sydd i ddod, byddai Adran 127 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Priodoliad heb Benderfyniad y Gyllideb) yn dod i rym yn awtomatig.  Byddai hyn yn rhoi awdurdod i Lywodraeth Cymru a chyrff a ariennir yn uniongyrchol i gronni (gwario) adnoddau, cadw incwm, a thynnu arian o Gronfa Gyfunol*

[107] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Cyllideb Ddrafft Amlinellol 2026 i 2027, tudalen 22
[108] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 17-18 a 20

> *Cymru o hyd at 75% o'r terfynau a gymeradwywyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Os nad yw Cynnig y Gyllideb wedi ei basio erbyn diwedd mis Gorffennaf, ystyrir bod hyd at 95% o derfynau'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi'u hawdurdodi."*[109]

**117.** Wrth fynd i'r afael â'r effaith ar Archwilio Cymru os na chaiff Cynnig y Gyllideb Flynyddol ei basio, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol, er y gallai barhau i godi ffioedd llawn am ei waith archwilio statudol, y byddai'r sefydliadau y mae'n eu harchwilio yn wynebu'r un cyfyngiadau ariannol. Awgrymodd y gallai Archwilio Cymru addasu amseriad a chydbwysedd gwaith y codir tâl amdano a gwaith na chodir tâl amdano yn y tymor byr, er y byddai angen iddo barhau i gyflawni ei raglen statudol a chodi'r ffioedd angenrheidiol i wneud hynny yn y tymor hwy.[110]

**118.** Trafododd hefyd fesurau arbed costau y byddai angen i Archwilio Cymru eu rhoi ar waith pe bai'n derbyn dim ond 75 neu 95 y cant o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru y flwyddyn flaenorol:

> *"… what we would have to go to is some kind of recruitment moratorium, either on contracting staff, who we draw in to help with peaks and troughs, with vacancies as they arise—. Most significant of all would be a staff pay rise for next year. Bluntly, we would not be able to offer that, or it would be greatly constrained. So, those would be the practical things that we could do to manage within our means if that were the situation, as well as stopping or postponing small items of capital spend, programme spend, and so forth."*[111]

## Arbedion ac effeithlonrwydd

**119.** Dywed Archwilio Cymru ei fod wedi gosod "targed arbedion uchelgeisiol o £300,000" ar draws y costau nad ydynt yn gostau archwilio. Mae'r targed arbedion £100,000 yn uwch nag yn 2025-26.[112]

**120.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol weithgarwch blaenorol i reoli costau yn y sefydliad, gan gynnwys mewn perthynas â swyddfeydd a theithio a chynhaliaeth. Dywedodd wrthym fod y targed yn yr Amcangyfrif yn canolbwyntio ar gostau

---

[109] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 16 Ionawr 2025
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 33
[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 35
[112] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalennau 7 a 22

cyffredinol ac yn cynrychioli gostyngiad o tua 7 y cant yn y maes hwn, ac er ei fod yn hyderus y byddai'n cyflawni'r targed hwn, dywedodd na fyddai'n fater syml.[113]

**121.** Clywsom y bydd y model cyllido sy'n cael ei rannu rhwng ffioedd a'r Gronfa Gyfunol yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd dod o hyd i arbedion cylchol o fewn y gyfran fach a ariennir gan y Gronfa Gyfunol:

> *"We're constantly trying to drive efficiencies in our audit delivery, but of course those aren't numbers that you see reflected in the WCF ask because those benefits are passed on to our audited bodies in the shape of lower audit fees."*[114]

## Costau staff

**122.** Mae'r Amcangyfrif yn darparu ar gyfer cyflogi 293 o staff cyfwerth ag amser llawn – gostyngiad o'i gymharu â 305 yn 2025-26. Mae Archwilio Cymru yn bwriadu ymdrin â'r ôl-groniad o waith archwilio a gynyddodd yn ystod y pandemig erbyn diwedd 2026. Bydd y gostyngiad yn nifer y staff yn cael ei reoli drwy gyfraddau ymadael naturiol, llai o recriwtio a defnyddio contractau tymor byr.[115]

**123.** Mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol hyder y gellid dileu'r ôl-groniad o waith o fewn yr amserlenni gofynnol ac y gellid sicrhau cyfatebiaeth rhwng lefelau staffio a'r cyfyngiadau ar y gyllideb. Nododd mai'r ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd yr ôl-groniadau sy'n weddill, yn enwedig mewn rhaglenni perfformiad lleol.[116]

**124.** At ei gilydd, cyflogau staff (gan gynnwys pensiwn a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol) sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o gostau Archwilio Cymru. Mae'r gost (heb gynnwys staff contract tymor byr ac unrhyw arbedion o drosiant staff) yn cynyddu £926,000 (3.8 y cant) i £25.2 miliwn yn 2026-27, o'i gymharu â 2025-26. Y cynnydd yng nghyfanswm costau staff sy'n ystyried yr holl elfennau cysylltiedig yw £751,000 (3.2 y cant).[117]

**125.** Gwneir darpariaeth ar gyfer codiad cyflog chwyddiannol yn ystod y flwyddyn, er nad yw'r gyfradd chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer hyn wedi'i nodi.[118]

---

[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 25 a 29
[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 25
[115] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 8
[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 40
[117] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Tabl 1
[118] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 8

**126.** Mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor y llynedd[119], darparodd Archwilio Cymru ragor o wybodaeth am ei ddull o gyfrifo'r codiad cyflog a'r mesurau chwyddiant a ddefnyddiwyd:

> *"Mae Archwilio Cymru yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth ddatblygu ei strategaeth gyflogau, gan gynnwys meincnodi gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, a chyda chyrff archwilio eraill y DU. Rydym hefyd yn cymryd rhan yn arolwg cyflogau blynyddol QCG sy'n meincnodi cyflogau a thaliadau cydnabyddiaeth ar gyfer cyrff rheoleiddiedig. Yn ogystal, rydym yn ystyried gohebiaeth ar gyllidebu gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, tueddiadau a rhagamcanion chwyddiant, cyfraddau recriwtio a chadw, a thueddiadau o ran staff sy'n ymadael i fynd at ein cystadleuwyr. Ni wnaethom ddefnyddio un mesur chwyddiant i lywio'r codiad o 3.5%, ond yn hytrach cyfuniad o'r holl ffactorau a restrir."*[120]

**127.** Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'r cynnydd o 3.8 y cant yng nghyllideb cyflogau staff yn cynrychioli codiad cyflog cyffredinol arfaethedig. Yn hytrach, mae'n cwmpasu cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cynnydd cyflog cynyddrannol cytundebol a chynnydd chwyddiannol o 2.75 y cant.[121]

**128.** Ar yr adeg y rhoddodd dystiolaeth, nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd trafodaethau ffurfiol gyda phartneriaid undebau llafur ynghylch setliad cyflog y flwyddyn nesaf wedi dechrau. Pwysleisiodd nad targed yw'r ffigur o 2.75 y cant, ond rhagdybiaeth weithredol i lywio'r gwaith o gynllunio'r gyllideb. Ychwanegodd:

> *"When we get into conversations with our TU partners, as I said, we benchmark extensively against other relevant sectors and organisations, and we look to see if there's more that we can do from within our existing package of resource to put into the pay package."*[122]

[119] Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2024, Argymhelliad 12
[120] Archwilio Cymru, Ymateb i'r Pwyllgor Cyllid, Ionawr 2025
[121] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 64
[122] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 62 a 64

## Teithio a chynhaliaeth

**129.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r gostyngiad mewn costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r lwfans teithio, y mae'r Pwyllgor wedi'i fonitro ers i'r newidiadau gael eu cynnig. Disgwylir gostyngiad o £135,000 yng nghyllideb teithio a chynhaliaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2026-27 o'i gymharu â 2025-26. Dywed Archwilio Cymru ei fod yn monitro hyn yn fanwl wrth iddo newid i fwy o weithio ar safleoedd.[123]

**130.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol fod y gostyngiad hwn yn adlewyrchu tuedd hirdymor, a bod y gwariant wedi gostwng o tua £1.2 miliwn bum neu chwe blynedd yn ôl i ychydig dros £200,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Priodolir hyn i'r defnydd cynyddol o blatfformau ar-lein ar gyfer gwaith ymgysylltu mewnol ac allanol, sydd hefyd wedi arwain at enillion effeithlonrwydd o ran rheoli amser a llai o allyriadau carbon.[124]

**131.** Er bod y gyllideb yn adlewyrchu'r math o weithgarwch sy'n digwydd yn y flwyddyn ariannol gyfredol, nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol y rhagwelir y bydd pwysau ar y gyllideb yn y dyfodol. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"One thing that we are keen to do is to encourage a little more onsite working for our auditors. What we've seen is that there are direct benefits in terms of improved audit quality from that sort of onsite working, and we really need to get that balance right. Of course, if that does then lead to higher costs and puts pressure on that budget, we will need to look at other budget heads to see what sort of efficiencies we can generate to offset those costs."*[125]

**132.** Tynnodd sylw hefyd at yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng mwy o weithgaredd teithio a chynhaliaeth a thargedau amgylcheddol, ac mae'r tîm gweithredol wrthi'n ystyried y ffordd orau o reoli hynny.[126]

[123] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalennau 9 a 22
[124] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 75
[125] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 75
[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 76

## Swyddfeydd

**133.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r newidiadau i swyddfeydd Archwilio Cymru ac yn dweud bod rhesymoli swyddfeydd wedi arwain at ostyngiad mewn gwariant o tua £250,000 bob blwyddyn. Mae'r Amcangyfrif hefyd yn nodi £12,000 ar gyfer "uwchraddio swyddfeydd", wedi'i gynnwys yn ei gyllideb gyfalaf ar gyfer y Rhaglen Newid.[127]

**134.** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyllid hwn yn ymwneud â'r ystafell gyfarfod fwyaf o blith saith ystafell gyfarfod sydd â chyfarpar fideo-gynadledda yn Swyddfa Caerdydd sy'n dioddef o ansawdd sain gwael ac sy'n effeithio ar ei haddasrwydd at ddefnydd busnes. Bydd y cyllid uwchraddio arfaethedig yn ariannu meicroffonau a seinyddion gwell i sicrhau bod yr ystafell yn bodloni safonau gweithredol.[128]

## Hyfforddiant a chyfnewid arferion da

**135.** Mae rhaglen hyfforddiant ariannol Cymru gyfan yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfleoedd secondiad i hyfforddeion graddedig a chynhadledd flynyddol, ymhlith pethau eraill. Ym mis Awst 2025, ymunodd 12 o raddedigion newydd a 4 prentis ag Archwilio Cymru. Cyfanswm cost y rhaglen yn 2025-26 yw £3.2 miliwn, gyda'r rhan fwyaf wedi'i ariannu drwy ffioedd. Mae'r Amcangyfrif yn gofyn am gynnydd o £27,000 mewn cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru i £927,000, sy'n ymwneud â chodiadau cyflog.[129]

**136.** Mae rhaglen arfer da Archwilio Cymru yn cael ei rhedeg yn rhad ac am ddim i gyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector, a bydd y costau'n cynyddu £31,000 i £652,000. Mae tîm yn rheoli'r rhaglen ac mae staff eraill yn cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau i rannu'r hyn a ddysgir. Codir tâl am amser staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn ar gyfraddau ffioedd, sy'n golygu bod y cynnydd yn 2026-27 yn adlewyrchu'r cynnydd cyfartalog o 5.3 y cant mewn cyfraddau ffioedd.[130]

**137.** O ran y gyllideb gyffredinol, mae'r Amcangyfrif yn dangos bod costau hyfforddi allanol yn cynyddu £75,000, gan gynnwys mwy o gyllid ar gyfer datblygu sefydliadol (£40,000) a 'hyfforddiant technegol' (£35,000).[131]

[127] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalennau 9 ac 11
[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 80
[129] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027 Nodyn 2
[130] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Nodyn 3
[131] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Tabl 4

**138.** Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio fod y cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiadau mewn mannau eraill yn y gyllideb ac nad yw'n cynrychioli cynnydd net na galwad ychwanegol ar y Gronfa Gyfunol. Mae rhywfaint o'r cyllid hwn yn cefnogi amrywiaeth o gymwysterau archwilio perfformiad, gan gynnwys:

- cymhwyster archwilio perfformiad newydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i ddyfnhau arbenigedd staff ac i broffesiynoli gwaith archwilio perfformiad ymhellach;
- cefnogi newydd-ddyfodiaid yn nhimau archwilio perfformiad i gael tystysgrif rheoli a chyfrifyddu ariannol, sy'n rhoi dealltwriaeth o rôl archwilio perfformiad ym mheirianwaith y llywodraeth ac atebolrwydd democrataidd;
- ehangu hyfforddiant archwilio perfformiad i'r rhaglen hyfforddeion, a oedd yn hanesyddol yn canolbwyntio ar gymwysterau cyfrifyddiaeth, er mwyn cynyddu hyblygrwydd sefydliadol a gwneud Archwilio Cymru yn fwy deniadol i brentisiaid a hyfforddeion.[132]

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

**139.** Ystyrir bod cyllid y Fenter Twyll Genedlaethol y tu allan i'r cyllid sylfaenol sy'n cynyddu 3.5 y cant yn 2026-27 o'i gymharu â 2025-26. Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg heb unrhyw gost i gyrff cyhoeddus. Mae'r cyllid yn amodol ar gynnydd/gostyngiad am yn ail flwyddyn i dalu costau sy'n ymwneud â Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwirio data. Mae'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2026-27 (cynnydd o £130,000) a dylent leihau eto yn 2027-28.[133]

## 'Gorwelion Archwilio'

**140.** Mae'r Amcangyfrif yn gofyn am fuddsoddiad o £150,000 gan Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y rhaglen 'Gorwelion Archwilio'. Dywed Archwilio Cymru fod y rhaglen wedi'i datblygu "mewn ymateb i dirwedd archwilio fythol esblygol", gan gyfeirio at dechnolegau sy'n dod i'r amlwg, galw cynyddol am adrodd ar gynaliadwyedd, gofynion rheoleiddio cynyddol a disgwyliadau cyhoeddus cynyddol. Mae'r datblygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Cymru

[132] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 82-83 ac 87
[133] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Nodyn 4

“archwilio'r sgiliau y bydd rhaid i ni eu datblygu mewn ymateb, ystyried sut y bydd angen i'n gweithlu esblygu ac adolygu siâp Archwilio Cymru dros y tymor hwy”.[134]

**141.** Mae'r prosiect yn nodi “anghenion cyfredol [ac] anghenion posibl yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn archwilio ac yn darparu fframwaith i werthuso llwyddiant y datblygiadau arfaethedig hynny” a bydd yn cael ei ddiweddaru o leiaf yn flynyddol. Mae'n darparu fframwaith i alluogi Archwilio Cymru i “hwyluso pob un o'r ysgogwyr hynny ac i benderfynu sut orau i gyfeirio'r buddsoddiad sydd ar gael gennym i mewn i offer digidol newydd, datblygiad sgiliau a meysydd eraill fel y bo angen”. Dywed Archwilio Cymru y bydd hyn yn gofyn am dros £800,000, ond mae'n cydnabod bod “y lefel hon o gyllid yn annhebygol o fod ar gael”. Felly, mae wedi cynnwys £150,000 i ganiatáu iddo “gychwyn ar y daith hon”.[135]

**142.** Disgrifiodd yr Archwilydd Cyffredinol y rhaglen 'Gorwelion Archwilio' fel rhaglen strategol sy'n ceisio rhagweld rhai o'r pwysau a'r ffactorau a fydd yn effeithio ar y sefydliad a nododd bedair thema allweddol:

- Trawsnewid Digidol – cydnabod esblygiad cyflym technoleg a'i heffaith ar y proffesiwn archwilio;
- Safonau Archwilio – ymateb i safonau archwilio rhyngwladol sy'n gynyddol llym, yn enwedig o ran adrodd ar gynaliadwyedd;
- Cynllunio'r Gweithlu – rhagweld anghenion sgiliau a staffio yn y dyfodol i ddiwallu'r galw sy'n dod i'r amlwg;
- Cwmpas – ymchwilio i newidiadau deddfwriaethol posibl a allai ehangu cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys i feysydd megis addysg bellach.[136]

**143.** O ran y buddsoddiad o £150,000 yn 2026-27, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym y byddai'n canolbwyntio ar y ddwy thema gyntaf o'r rhain:

> *“... some strengthening of our technical quality team, in particular to make sure that we're on the front foot in that sustainability audit space, and some small input into our IT capacity. So, we have an ICT team currently of three people.*

[134] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Nodyn 5
[135] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Nodyn 5
[136] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 70

> *Ideally, we'd like to supplement that with one relatively junior but more specialised post that is a software developer more focused on future development for us. But, over time, there's much more that we need to do. And so, Audit Horizons, I think, for the next auditor general and the next committee will be a theme that we return to."*[137]

**144.** Mae'r Amcangyfrif hefyd yn nodi £53,000 o gyfalaf yng nghyllideb y Rhaglen Newid ar gyfer 'digideiddio gwaith archwilio'.[138]

## Newidiadau eraill

**145.** Mae gostyngiad o £25,000 yn y gyllideb ar gyfer yr eitem 'Bwrdd a chostau cysylltiedig' sy'n gysylltiedig â chyllid ar gyfer y gwerthusiad annibynnol yn 2025-26.[139] Y llynedd, amlinellodd y Pwyllgor ei ddisgwyliad y byddai Archwilio Cymru yn dangos yn glir ble byddai'r cyllid untro hwn yn lleihau yn Amcangyfrif 2026-27.[140]

**146.** Dangosir y gostyngiad o £25,000 yn 2026-27 o dan yr eitem 'Bwrdd a chostau cysylltiedig' sydd wedi'i gynnwys yn y newid cyffredinol yn y llinell sylfaen (3.5 y cant) yn Arddangosyn 3.[141]

**147.** Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, cyflwynir costau untro eraill sy'n ymwneud â chyllid cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol (cynnydd o £130,000 yn 2026-27) ac addasiad nad yw'n arian parod mewn perthynas â chyfalaf Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 sy'n gysylltiedig â swyddfa gorllewin Cymru (£187,000 yn 2025-26) islaw'r llinell sylfaen.[142]

**148.** Wrth fyfyrio ar sut mae dileu'r cyllid untro o £25,000 ar gyfer gwerthuso'r Bwrdd yn 2025-26 yn cael ei gyflwyno yn yr Amcangyfrif, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai fod wedi cael ei gynnwys o dan y llinell sylfaen, gan ychwanegu:

[137] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 71
[138] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 2
[139] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2025-2026, Arddangosyn 8
[140] Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2024, Argymhelliad 14
[141] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 3
[142] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 3

> *"I guess what you're looking for is assurance that we're not sort of quietly nudging £25,000 into the baseline, and we're absolutely not doing that."*[143]

## Cyfalaf

**149.** Mae Archwilio Cymru yn lleihau ei fuddsoddiad cyfalaf yn 2026-27 oherwydd y newid yn y diwydiant i ddefnyddio datrysiadau TG yn y cwmwl (gyda rhent blynyddol yn hytrach na buddsoddiad ymlaen llaw) a chwblhau ei brosiect gweithleoedd y dyfodol.[144]

**150.** Roedd yr Amcangyfrif ar gyfer 2025-26 yn rhagdybio gofyniad cyfalaf o £280,000 yn 2026-27.[145] Fodd bynnag, mae Amcangyfrif 2026-27 yn cynnwys gofyniad cyfalaf is o £180,000, sy'n cynnwys:

- £80,000 ar gyfer 'rhaglen newid' Archwilio Cymru (o'i gymharu â £180,000 yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2025-26), sy'n cynnwys £53,000 ar gyfer digideiddio gwaith archwilio, £12,000 ar gyfer uwchraddio swyddfeydd a £15,000 ar gyfer 'system rheoli dysgu newydd'.
- £100,000 ar gyfer ei strategaeth TGCh, sy'n gysylltiedig â'i rhaglen ddisodli.[146]

**151.** Mae'r Amcangyfrif yn awgrymu gofyniad cyllideb flynyddol tebyg hyd at 2029-30.[147]

**152.** Caiff buddsoddiad cyfalaf Archwilio Cymru ei ariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r newid mewn cyllid cyfalaf wedi'i gynnwys yn y newid cyffredinol yn y llinell sylfaen (3.5 y cant) a'r newid cyffredinol yn arian parod Cronfa Gyfunol Cymru (4.6 y cant).[148]

**153.** Pan ofynnwyd iddo a yw'n briodol cyflwyno newid cyffredinol o 3.5 y cant yn y llinell sylfaen, o ystyried effaith wrthbwyso cynnydd mewn costau refeniw yn erbyn gostyngiad mewn costau cyfalaf, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"A couple of years ago we agreed with the committee that we would adopt this approach. So, we used to have separate*

[143] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraffau 105 a 107
[144] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 10
[145] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2025-26, tudalen 15
[146] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 11
[147] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 11
[148] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, Arddangosyn 3

*resourcing limits for our capital and resource elements, but that was out of kilter with just about every other part of the public sector. So, we agreed with you that we would move to a single resource limit for the organisation, but we'd still report separately our capital budget and spend for transparency. So, that's what we're doing, but it's exactly in line with other organisations and perfectly proper."*[149]

## Cynllun ariannol tymor canolig

**154.** Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn rhagdybio y bydd yr ôl-groniad archwilio wedi'i glirio erbyn diwedd 2026 ac erbyn 2027-28 y bydd Archwilio Cymru wedi cyflawni sefyllfa gyson o gyflawni blwyddyn o waith archwilio ym mhob blwyddyn ariannol. Yn wahanol i'r llynedd, nid yw Archwilio Cymru wedi cynnwys tabl ar gyfer ei gynllun ariannol tymor canolig oherwydd ansicrwydd ynghylch goblygiadau'n ymwneud â datblygiadau technolegol a pharodrwydd digidol cyrff a archwilir. Mae'r Amcangyfrif yn datgan:

*"Mae'r Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ein ffordd o feddwl mewn perthynas â'r potensial ar gyfer newid a'i oblygiadau fel bod hyn yn gallu cael ei adlewyrchu yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2027-28 a'r tu hwnt."*[150]

**155.** Gan ymateb i'r diffyg cynllun ariannol tymor canolig, dywedodd y Cadeirydd wrthym fod y Bwrdd yn treulio amser yn myfyrio ar sut olwg fydd ar Archwilio Cymru yn y dyfodol gan gynnwys cwmpas y gwaith, ansawdd, effaith technoleg a sgiliau. Aeth ymlaen i ddweud:

*"When we come back next time, there'll be a much better informed and more meaningful medium-term financial plan for you to consider, as opposed to just a stock one, which is moving forward. So, hopefully, that will be better for the committee and better for ourselves."*[151]

## Ffioedd

**156.** Mae Archwilio Cymru yn cynnig cynnydd cyfartalog o 5.3 y cant yng nghyfraddau ei ffioedd i ymateb i gyfuniad o "bwysau chwyddiannol" a

[149] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 97
[150] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 20
[151] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 115

"disgwyliadau ynglŷn ag ansawdd". Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod y cynnydd eleni yn dilyn "cynnydd sylweddol is na chwyddiant" yn 2025-26 (1.7 y cant).[152] Roedd y cynnydd is y llynedd yn adlewyrchu staff ychwanegol ac effaith gwasgaru gorbenion yn deneuach.

**157.** Ymgynghorodd Archwilio Cymru â phob corff a archwiliwyd a grwpiau cynrychioliadol ar y ffioedd arfaethedig ar gyfer 2026-27, a gynigiodd gynnydd amcangyfrifedig mewn ffioedd o 5.5 y cant. Cafodd 17 o ymatebion, ac roedd 10 o'r rheini'n tynnu sylw at y cynnydd uwch na chwyddiant yng nghyfraddau ei ffioedd. Mewn ymateb i hynny, mae'r Bwrdd wedi nodi arbedion effeithlonrwydd pellach ac wedi lleihau'r cynnydd o 5.5 y cant i 5.3 y cant.[153]

**158.** Wrth egluro'r rheswm dros lefel y cynnydd yng nghyfraddau'r ffioedd, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y ffaith bod gan Archwilio Cymru nifer mwy o staff yn y sefydliad na'r nifer swyddogol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniadau o waith archwilio:

> *"When we're over-establishment in that way, with staff who are earning fees, each one of them is making a small contribution to our overheads. And so, last year, although our inflationary costs were around about 4 per cent in-year, we increased our fee rates by only 1.7 per cent, because we and audited bodies were getting the benefit of that additional contribution. Now we're catching up with the backlog, we're bringing our staff numbers down. That's unravelling, and unfortunately, we're seeing the reverse effect. So, that unravelling of our additional staff is probably adding about 2 per cent to that number. So, one thing I'm doing is reminding audited bodies of last year as well as this. If you look across the two years, our fee rates will have gone up by around about 7 per cent, and inflation probably around 8 per cent."*[154]

**159.** Pwysleisiodd y gall cyrff a archwilir hefyd ddylanwadu ar y bil ffioedd terfynol drwy gyflwyno gwybodaeth o ansawdd da yn brydlon ac ymateb i ymholiadau. Mae hyn yn galluogi Archwilio Cymru i gyflawni ei waith yn gyflymach a, chan na all Archwilio Cymru gadw elw, caiff unrhyw warged ei ad-dalu.[155]

---

[152] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 29
[153] Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2026-2027, tudalen 29
[154] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 120
[155] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 121

## Barn y pwyllgor

**160.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod asesiad yr Archwilydd Cyffredinol bod yr Amcangyfrif wedi'i gynllunio i gynnal y capasiti gweithredol presennol, a ysgogir yn bennaf gan bwysau chwyddiannol a chostau staff, yn hytrach nag unrhyw ehangu sylweddol o ran y meysydd gwaith. Felly, rydym yn fodlon ar y gofynion cyffredino o ran adnoddau a chyfalaf y gofynnir amdanynt gan y Gronfa Gyfunol Cymru.

**161.** Nodwn y goblygiadau sylweddol i Archwilio Cymru, pe na bai'r Senedd yn pasio Cynnig y Gyllideb Flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, a'r heriau gweithredol y byddai hyn yn eu creu. Er bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau y gallai gwaith archwilio statudol barhau, rydym yn rhannu ei bryderon y byddai cyrff a archwilir hefyd yn wynebu cyfyngiadau ariannol, a allai effeithio ar eu gallu i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses archwilio. Felly, rydym yn cefnogi ei gynnig, pe bai'r senario hon yn digwydd, i addasu amseriad a chydbwysedd gwaith y codir tâl amdano a gwaith na chodir tâl amdano yn y tymor byr. Os bydd y cyfyngiad cyllido yn parhau, rydym hefyd yn cydnabod effaith rhewi gweithgaredd recriwtio, cyfyngiadau ar ddyfarniadau cyflog staff, a gohirio gwariant cyfalaf a rhaglenni. Er eu bod yn angenrheidiol yn y tymor byr, gallai'r mesurau hyn danseilio gallu Archwilio Cymru i gyflawni ei swyddogaethau statudol a chynnal ansawdd gwaith archwilio dros amser.

**162.** Rydym yn cydnabod ymdrechion parhaus Archwilio Cymru i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys targed arbedion o £300,000 yn 2026-27. Rydym hefyd yn nodi'r anhawster cynyddol o ran nodi arbedion pellach o fewn y rhan o'i gyllideb a ariennir drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

**163.** Rydym yn cydnabod mai costau staff yw'r elfen fwyaf o wariant Archwilio Cymru o hyd. Nodwn y cynnydd a ragwelir yng nghyllideb cyflogau staff, a bod y cynnydd hwn yn cynnwys codiadau cyflog cynyddrannol cytundebol yn ogystal â rhagdybiaeth weithredol o gynnydd chwyddiannol o 2.75 y cant. Rydym yn gwerthfawrogi'r dull aml-ffactor o ymdrin â'r strategaeth gyflogau, gan gynnwys meincnodi, tueddiadau recriwtio ac ystyried gohebiaeth Ysgrifennydd y Cabinet i gefnogi blaengynllunio ariannol. Fodd bynnag, hoffem ddeall mwy am sut y mae rhagdybiaethau ynghylch codiadau cyflog yn cyd-fynd â dangosyddion chwyddiant.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru ddarparu dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at gyllideb cyflogau cyffredinol y staff

mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan wahaniaethu rhwng cynnydd mewn taliadau cynyddrannol cytundebol, codiadau cyflog a ffactorau eraill.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru:

- ddarparu eglurder ynghylch unrhyw ddangosyddion chwyddiannol a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu ei ragdybiaeth weithredol o godiad cyflog o 2.75 y cant yn 2026-27,
- cynnwys ei fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer codiadau cyflog mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan gynnwys sut y mae'n cyd-fynd â dangosyddion chwyddiannol.

**164.** Nodwn nad yw trafodaethau â'r undebau llafur wedi dechrau eto ac y bydd Archwilio Cymru yn ymchwilio i p'un a oes modd cefnogi'r pecyn cyflog o fewn ei becyn adnoddau presennol. Er nad yw'n briodol i'r Pwyllgor ffurfio barn ar faterion gweithredol Archwilio Cymru, megis lefelau cyflog staff, mae gennym ddiddordeb naturiol yn yr effaith a gaiff penderfyniadau o'r fath ar y gyllideb a gofynnwn am ddiweddariad ar gynnydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru ddarparu diweddariad ar ôl i'r trafodaethau ar gyflogau ar gyfer 2026–27 ddod i ben, gan gynnwys manylion ei effaith ar gyllideb y sefydliad.

**165.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gostyngiad mewn costau teithio a chynhaliaeth, sy'n adlewyrchu newidiadau gweithredol a newid ehangach tuag at ymgysylltu ar-lein. Er bod yr arbedion effeithlonrwydd hyn i'w croesawu, rydym yn nodi'r sylwadau ynghylch yr angen posibl i gynyddu gweithio ar y safle er mwyn gwella ansawdd y gwaith archwilio. Rydym yn cydnabod y gallai newid o'r fath arwain at gostau teithio a chynhaliaeth uwch, y byddai angen eu cydbwyso yn erbyn targedau amgylcheddol a chyfyngiadau cyllidebol cyffredinol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid talu am unrhyw gynnydd yn y dyfodol mewn costau teithio a chynhaliaeth sy'n deillio o newid tuag at fwy o weithio ar safleoedd gydag arbedion effeithlonrwydd o fewn cyllidebau presennol, a chydbwyso hynny yn erbyn targedau amgylcheddol.

**166.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r buddsoddiad arfaethedig o £150,000 yn y rhaglen 'Gorwelion Archwilio', sy'n anelu at fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â thrawsnewid digidol, safonau rheoleiddio, cynllunio'r gweithlu a chwmpas. Rydym yn croesawu'r bwriad strategol y tu ôl i'r rhaglen, ond rydym yn awyddus i gael rhagor o eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhyngddi a

gweithgareddau trawsnewidiol eraill ac ynghylch goblygiadau'r rhaglen i'r gyllideb yn y dyfodol. Rydym hefyd yn disgwyl i Archwilio Cymru sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol yn y maes hwn yn seiliedig ar achosion busnes cadarn gyda chanlyniadau wedi'u diffinio'n glir. Dylai Amcangyfrifon yn y Dyfodol sy'n dyrannu cyllid ar gyfer 'Gorwelion Archwilio' esbonio'r gweithgaredd ymarferol y bydd y cyllid yn ei gyflawni.

**Argymhelliad 10.** Mewn perthynas â'r rhaglen Gorwelion Archwilio, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru:

- egluro sut y mae'n wahanol i weithgareddau trawsnewidiol eraill a'r cysylltiad rhyngddi â'r gweithgareddau eraill hyn,
- egluro sut y cyfrifwyd y gofyniad buddsoddi o £800,000 ac a fydd yn gofyn am fuddsoddiad y tu hwnt i'r £150,000 y gofynnwyd amdano ar gyfer 2026-27 yn y dyfodol,
- cadarnhau pa gyfran o gostau'r rhaglen a fydd yn cael ei hariannu drwy ffioedd, os o gwbl,
- amlinellu'r costau posibl yn y dyfodol, yn ogystal â hyd y rhaglen.

**167.** Yn unol ag argymhelliad y llynedd, nodwn y gostyngiad o £25,000 yn yr elfen 'Bwrdd a chostau cysylltiedig' yn dilyn cwblhau'r gwerthusiad annibynnol yn 2025–26, y cymeradwyodd y Pwyllgor gyllid untro ar ei gyfer. Er bod y gostyngiad yn cael ei ddangos yn glir yn Arddangosyn 3 yn y wybodaeth ategol i'r Amcangyfrif, mae cynnwys eitemau untro o'r fath yn y newid cyffredinol yn y llinell sylfaen yn golygu bod y gostyngiad hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chostau parhaus eraill, sy'n ddull yr ydym yn credu y gellid ei wella. Yn y dyfodol, credwn y dylai Archwilio Cymru ystyried a fyddai'n gliriach cyflwyno costau untro islaw'r llinell sylfaen, fel y mae eisoes yn ei wneud ar gyfer rhai eitemau eraill.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Archwilio Cymru ystyried a ddylid cyflwyno rhai eitemau untro, megis cyllid ar gyfer gwerthusiad annibynnol o'r Bwrdd, islaw'r llinell sylfaen er mwyn sicrhau mwy o dryloywder.

**168.** Nodwn y cynnydd arfaethedig o 5.3 y cant yng nghyfradd y ffioedd cyfartalog ar gyfer 2026–27, sy'n dilyn cynnydd o 1.7 y cant yn 2025–26. Roedd y cynnydd is yn 2025-26 yn bosibl oherwydd bod niferoedd y staff yn uwch na'r lefel swyddogol dros dro, ac rydym yn derbyn y bydd y budd ariannol yn sgil hynny yn lleihau nawr, gan gyfrannu at yr angen am gynnydd uwch yng nghyfraddau'r ffioedd.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027

Hydref 2025

Wedi'i baratoi ar y cyd a'i osod gerbron y Senedd dan Adran 20(1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Ian Rees**
Cadeirydd Archwilio Cymru

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Audit Wales
1 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff, CF10 4BZ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati ar y cyd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif sy'n briodol yn ei dyb ef, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiad oni bai:

- Yr ymgynghorwyd â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- bod unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Bob blwyddyn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Senedd dan Adran 125 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a thaliadau sydd i'w gwneud i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau sydd i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rhagair 4

Cyllideb 2026-27 6

Cwmpas Cyllideb 2026-27 8

# Rhagair

Mae Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n uchel ac sy'n atebol. Mae'n darparu tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae'n darparu gwybodaeth ariannol gywir a dibynadwy i gyrff cyhoeddus y gallant ei defnyddio i gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid yn effeithiol.

Mae ein gwaith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn trwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 850 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei reoli, o Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, trwy bron pob maes y darperir gwasanaethau cyhoeddus ynddo.

Mae archwilio cyhoeddus yn sicrhau bod y Senedd, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn cael asesiad annibynnol o ddefnyddio a rheoli arian cyhoeddus a rhybudd cynnar ynghylch problemau. Pan fo ansawdd neu amseroldeb archwilio'n lleihau, mae'r risgiau o wastraff, twyll, a chamreoli'n cynyddu.

Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg nodi'r heriau i wariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei lythyr dyddiedig 11 Gorffennaf 2025 – gan nodi'r setliad adnoddau 3 blynedd i Lywodraeth Cymru am y 3 blynedd nesaf a'r pwysau sylweddol a chynyddol ar gostau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Rydym yn cydnabod y pwysau hyn ar gyllid cyhoeddus. Yn wir, y pwysau hyn sy'n gwneud gwaith Archwilio Cymru'n fwy hanfodol byth. Nid yw'r angen am werth am arian am bob punt o wariant cyhoeddus, ac am asesiad amserol, dibynadwy o'r sefyllfa o ran rheoli ariannol a llywodraethu yn sector cyhoeddus Cymru, erioed wedi bod yn fwy. Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yw ei gwneud yn glir i'r Senedd beth y mae ei angen i ddarparu hynny trwy swyddfa archwilio cyhoeddus gref, gynaliadwy, annibynnol. Heb swyddfa o'r fath, mae'r risg o fethu â defnyddio'r adnoddau prin hynny yn y ffordd orau posibl yn cynyddu'n fawr. Ac mae'r costau i bwrs y wlad sy'n codi'n gyflym o ganlyniad i'r gwendidau'n uwch o lawer na chost cynnal cyfundrefn archwilio cyhoeddus o ansawdd da y darperir adnoddau priodol ar ei chyfer. Nid yw cyfanswm cost darparu sicrwydd a mewnwelediad annibynnol Archwilio Cymru rhyw lawer yn fwy nag 1 geiniog am bob £10 a gaiff ei wario ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Mae adroddiad diweddar gan yr Audit Reform Lab yn trafod methiant archwilio cyhoeddus yn Lloegr a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r adroddiad yn dangos bod archwilio cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa well a mwy cost-effeithiol o lawer.

Gan ystyried hyn i gyd, mae ein Hamcangyfrif yn darparu ar gyfer cynnydd yn ein galwad sylfaenol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn nhermau adnoddau o 3.5%. Darperir ar gyfer cynnydd cyfartalog yng nghyfraddau ein ffioedd o 5.3% yn y Cynllun Ffioedd drafft sydd wedi'i atodi wrth yr Amcangyfrif.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25 yn nodi ein hanes o gyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Ebrill eleni fe wnaethom osod ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26 gerbron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau i'r dyfodol ar gyfer 2026-27 ac yn cynnwys gofynion cyllid dangosol ac ystyriaethau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Bydd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27 yn cael ei osod gerbron y Senedd erbyn 31 Mawrth 2026.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



**Ian Rees**
Cadeirydd, Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cyllideb 2026-27

Caiff ein cyllideb ar gyfer 2026-27 ei nodi isod ac mae’n darparu ar gyfer:

- Archwilio cyfrifon dros 850 o gyrff a archwilir yr ydym yn codi ffioedd am ei wneud yn unol â darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- Ein gwaith archwilio perfformiad mewn Llywodraeth Leol a chyrff Iechyd yr ydym yn codi ffioedd am ei wneud fel uchod.
- Archwiliadau ac Astudiaethau Gwerth am Arian Cenedlaethol ac Astudiaethau Llywodraeth Leol.
- Gwaith i archwilio themâu sy’n codi o’n gwaith cyfrifon.
- Cymorth ar gyfer ein hymateb i faterion a ddygwyd i’n sylw gan aelodau’r cyhoedd a’u cynrychiolwyr etholedig.
- Ein rhaglen hyfforddiant ariannol Cymru Gyfan.
- Cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol, a’n Cyfnewidfa Arfer Da.

| | 2025-26 | | | 2026-27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb 2025-26 £'000 | Pwysau/ Chwyddiant £'000 | Symudiadau yn y gyllideb £'000 | Buddsoddiad £'000 | Effeithlonrwydd/ Gostyngiadau £'000 | Cyllideb 2026-27 £'000 |
| Costau staff | 24,069 | 1,301 | 150 | - | (700) | 24,820 |
| Costau heblaw staff(arian parod) | 3,751 | 13 | (150) | 150 | (432) | 3,332 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | 95 | 130 | - | - | - | 225 |
| Cyfalaf (arian parod) | 280 | - | - | - | (100) | 180 |
| Cyfanswm Gwariant(arian parod) | 28,195 | 1,444 | - | 150 | (1,232) | 28,557 |
| Incwm o Ffioedd Archwilio | (18,610) | | | | 119 | (18,491) |
| Gwariant Net(arian parod) | 9,585 | 1,444 | - | 150 | (1,113) | 10,066 |
| Dibrisiant a llog | 408 | 3 | - | - | - | 411 |
| Cyfalaf IFRS16 | 187 | - | - | - | (187) | - |
| Cyfanswm Adnoddau | 10,180 | 1,447 | - | 150 | (1,300) | 10,477 |
| Dibrisiant a llog | (408) | (3) | - | - | - | (411) |
| Cyfalaf IFRS16 | (187) | - | - | - | 187 | - |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | 40 | - | - | - | (40) | - |
| Gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru | 9,625 | 1,444 | - | 150 | (1,153) | 10,066 |

Mae'r wybodaeth ategol ar gyfer ein Hamcangyfrif 2026-27 yn darparu rhagor o fanylion ar bob un o'r meysydd hyn.

# Cwmpas Cyllideb 2026-27

## Amcangyfrif o ofynion cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027

1 O dan Adran 125 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion gyflwyno Cynnig Cyllideb yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

2 Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:

- swm yr adnoddau a all gael eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb am y flwyddyn);
- swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, a all gael eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; a hefyd
- y swm y gellir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Caiff y gofynion hyn, y mae amrywioldeb ffrydiau incwm yn golygu na allant ond bod yn amcangyfrifon, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

4 Caiff manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn 2026-27 eu nodi yn ein gwybodaeth ategol.

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllidebol 2026-27**

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | 10,477 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a ysgwyddir ar gyfer trydydd parti – y cyfan i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 18,491 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 10,066 |

5 Mae **Arddangosyn 2** yn darparu'r atodlen i'w chynnwys yng Nghynnig Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027.

**Arddangosyn 2: dadansoddiad o'r gyllideb ar gyfer Cynnig Cyllideb Llywodraeth Cymru**

| | **£'000** |
|---|---|
| **Adnoddau** | |
| Refeniw net | 9,886 |
| Cyfalaf net | 180 |
| Adnoddau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant ac amorteiddiad) | 411 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | - |
| | £'000 |
| **Adnoddau Cronnus** | 18,491 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.